



## Cyngor Sir Fynwy

### Datganiad o Fwriad Cymhwysedd Hyblyg Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni'r Awdurdod Lleol

Dyddiad cyhoeddi: 28/09/2021

Fersiwn: 2

Yn ddilys o: 28/09/2021

<https://www.monmouthshire.gov.uk/>

#### 1) Cyflwyniad

Mae Cyngor Sir Fynwy wedi ymrwmo i gefnogi trigolion sy'n agored i dlodi tanwydd a chartrefi oer. Gan weithio gydag Asiantaeth Ynni De-ddwyrain Cymru, elusen tlodi tanwydd lleol, mae'r Cyngor wedi datblygu'r gwasanaeth ynni cartref sy'n gweithredu fel siop un stop ar gyfer pob angen am ynni a chynhesrwydd yn y cartref. Mae'r gwasanaeth yn darparu cyngor, cymorth a mynediad at gyllid gyda'r nod o gynorthwyo'r trigolion hynny sy'n berchen ar eu cartref eu hunain neu'n rhentu'n breifat ac sydd mewn perygl o ddioddef tlodi tanwydd, neu sy'n dioddef o iechyd gwael oherwydd eu bod yn byw mewn cartref oer a/neu laith.

#### 2) Cefndir

Mae cyllid Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni (neu ECO, sef 'Energy Company Obligation') yn ofyniad a roddir ar gwmnïau ynni dros faint penodol er mwyn helpu i wella perfformiad ynni domestig yng nghartrefi'r rhai sy'n agored i niwed. Mae 'Cymhwysedd Hyblyg' yn caniatáu i gynghorau bennu eu meini prawf eu hunain i ymestyn y cyllid y tu allan i reolau arferol ECO (sy'n seiliedig fel arfer ar fudd-daliadau cymwys).

Mae Cyngor Sir Fynwy yn ystyried bod Cymhwysedd Hyblyg ECO yn gweddu'n dda o fewn nodau'r Gwasanaeth Ynni Cartref ac mae'n hapus i gefnogi'r defnydd ohono i ddarparu cyllid ychwanegol ar gyfer mesurau effeithlonrwydd ynni i drigolion cymwys yn y sir.

Mae'r Datganiad o Fwriad hwn yn nodi'r meini prawf estynedig a sut y gall deiliaid tai wneud ceisiadau i gael y cyllid.

Gellir defnyddio'r arian i osod mesur effeithlonrwydd ynni ('mesurau') megis inswleiddio waliau ceudod, inswleiddio atig, atgyweirio boeleri a gwres canolog y tro cyntaf. Nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysol a bydd y mesurau sydd ar gael yn newid dros amser. Gellir gosod rhai mesurau am ddim i aelwydydd cymwys tra bydd mesurau eraill yn gofyn am gyfraniad gan y cwsmer. Pryd bynnag y bo modd, nod y Gwasanaeth Ynni Cartref yw dod o hyd i arian ychwanegol ar gyfer cartrefi cymwys er mwyn lleihau unrhyw gyfraniad sydd ei angen oddi wrth gwsmeriaid.

### 3) Sut mae'r cyngor yn bwriadu nodi cartrefi cymwys

#### Adnabod Aelwydydd Cymwys.

Mae Cyngor Sir Fynwy o'r farn bod yna dri grŵp o aelwydydd sy'n gymwys i gael cymorth i osod mesurau arbed ynni o dan y trefniant Cymhwysedd Hyblyg:

- I. Lle mae gan gartrefi incwm isel a chostau gwresogi uchel
- II. Os oes gan gartrefi incwm isel a'u bod yn agored i niwed mewn tymheredd oer
- III. Lle mae cartrefi yn eiddo llenwi at ddibenion inswleiddio waliau solet.

Mae'n bosibl bod y ddau grŵp cyntaf o aelwydydd ar incwm isel, ond nid ydynt yn ddigon isel i fod yn gymwys i gael budd-daliadau. Mae cynlluniau ECO a chynlluniau grant eraill blaenorol wedi anwybyddu'r trigolion hyn ac rydym yn falch iawn o allu gofyn am gymorth iddynt o dan Gymhwyster Hyblyg.

#### Pennu Meini Prawf Cymhwysedd Aelwydydd (Grwpiau Aelwydydd i a ii).

Wrth bennu cymhwysedd rhaid i bob cartref fodloni'r Maen Prawf 1 (Incwm Isel) a naill ai Maen Prawf 2 (Costau Gwresogi Uchel) neu Faen Prawf 3 (bod yn agored i fyw mewn cartref oer),

h.y. yr aelwyd gymwys = Incwm Isel (Maen Prawf 1) + Costau Gwresogi Uchel (Maen Prawf 2) **neu** Incwm Isel (Maen Prawf 1) + Bod yn Agored i Niwed mewn Tymheredd Oer (Maen Prawf 3).

**Cymhwyster Maen Prawf 1** – Mae incwm isel yn cael ei bennu drwy ddefnyddio'r gwerthoedd ariannol yn y tabl isod. Nodwch y gall y gwerthoedd hyn newid o bryd i'w gilydd. Caiff gwerthoedd diwygiedig eu cyhoeddi ar ein gwefan pan fo'n berthnasol.

Cyfansoddiad yr aelwyd	Incwm blynyddol y cartref ar ôl didynnu rhent neu gostau morgais	Incwm cartref misol Cyfatebol ar ôl didynnu rhent neu gostau morgais
<b>1 oedolyn</b> (18 oed a throsodd)	£9,300	£775
ac 1 plentyn	£12,200	£1,017
a 2 blentyn	£15,000	£1,250
a 3 phlentyn	£18,000	£1,500
a 4 neu fwy o blant	£21,000	£1,750

<b>2 oedolyn</b> (18 oed a throsodd)	£15,200	£1,267
ac 1 plentyn	£18,200	£1,517
a 2 blentyn	£21,100	£1,758
a 3 phlentyn	£24,100	£2,008
a 4 neu fwy o blant	£26,800	£2,233

Ar ei ddisgresiwn, gall y cyngor gynyddu'r ffigurau hyn mewn achosion lle mae costau tanwydd yn uchel iawn.

**Cymhwyster Maen Prawf 2** – Bydd costau gwresogi uchel yn cael eu hasesu naill ai fel:

- Cartref â Thystysgrif Perfformiad Ynni ym Mandiau E, F neu G neu
- Cartref sy'n sgorio 50 neu fwy ar y tabl isod.

Cwestiwn	Ateb	Sgôr
Sawl ystafell wely sydd yn y cartref?	1	0
	2	10
	3	20
	4	30
	5	40
	6 neu fwy	50
Pa fath o gartref yw hwn?	Ar wahân	30
	Rhannol ar wahân	20
	Canol teras	10
	Pen teras	20
	Fflat	20
	Byngalo	30
A gaiff taliadau ynni eu gwneud drwy Ddebyd Uniongyrchol?	Ie	0
	Nac Oedd	10
A adeiladwyd y tŷ cyn 1964 neu a system-adeiladwyd?	Ie	20
	Nac Oedd	0
Beth yw'r prif danwydd gwresogi?	Nwy o brif gyflenwad	0
	Trydan	20
	Arall	20

Ai Cartref Parc yw'r eiddo ____?	Ie	30
	Na	0
A yw'r cartref yn Ddefnyddiwr Ynni Uchel? (Gan ddefnyddio dros 23,000 kWh o nwy neu 5,100 kWh o drydan y flwyddyn.)	Ydy	10
	Nac Ydy	0

**Cymhwyster Maen Prawf 3** – Er mwyn canfod pa mor agored i niwed yw aelwyd, mae'n rhaid i aelod llawn amser o'r aelwyd honno fodloni un neu fwy o'r meini prawf canlynol:

a) Gall iechyd fod yn ffactor o bwys o ran faint o wres sydd ei angen mewn eiddo. Felly, bydd meini prawf iechyd yn bwysig wrth asesu cymhwysedd hyblyg.

- i. Cyflwr cardiofasgwlaidd (yn cynnwys clefyd coronaidd y galon, strôc, gorbwysedd, ymosodiad isgemig darfodedig)
- ii. Cyflwr anadlol (yn cynnwys clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint, y fogfa)
- iii. Cyflwr niwrolegol neu niwrofiologol (yn cynnwys dementia, clefyd Parkinson, parlys ymledol, epilepsi, ffibromyalgia, ME)
- iv. Chyflyrau cyhyrsgerbydol (gan gynnwys llid y cymalau, symudedd cyfyngedig, ymweliad ysbyty yn ddiweddar oherwydd cwmp)
- v. Cyflwr y gwaed (gan gynnwys clefyd y crymangelloedd, thalassemia)
- vi. Canser
- vii. Salwch meddwl cymedrol i ddifrifol (sy'n cynnwys sgitsoffrenia, anhwylder deubegynol ac iselder ac yn derbyn triniaeth reolaidd)
- viii. Anableddau dysgu difrifol
- ix. Clefydau awtoimiwn neu ddiffyg imiwneidd (e.e. lwpws, clefyd y siwgr, HIV)
- x. Yn derfynol wael
- xi. Salwch arall a waethygir gan dymheredd oer (wedi'i gadarnhau gan Feddyg Teulu)
- xii. Anabledd sylweddol a pharhaol ac yn derbyn Lwfans Byw i'r Anabl, Lwfans Gweini neu Daliad Annibyniaeth Bersonol

b) Gall oedran hefyd fod yn ffactor o ran faint o wres sydd ei angen i sicrhau cynhesrwydd fforddiadwy, a chaiff hyn effaith arbennig o andwyol ar breswylwyr hŷn ac iau.

- i. Oedolyn 60 oed neu drosodd
- ii. Plentyn o dan 5 oed
- iii. Yn feichiog.

## **Pennu Meini Prawf Cymhwysedd Aelwydydd (Grŵp Aelwydydd iii - Eiddo Wal Solet)**

Os yw'r eiddo wedi'i adeiladu gyda Wal Solet neu ag Adeiladwaith System-Adeiladu, byddai Cyngor Sir Fynwy yn falch i gefnogi gosod inswleiddiad wal solet. Byddwn felly yn cytuno i gwblhau Datganiadau ar gyfer yr aelwydydd hynny (waeth beth fo'u hincwm neu os ydynt yn agored i niwed) sy'n bodloni'r meini prawf eiddo llenwi. Lle nad yw cartref yn bodloni'r meini prawf ar gyfer Tlodi Tanwydd neu Incwm Isel Agored i Niwed oherwydd Tymheredd Oer, gall ALI ddatgan bod cartref yn "eiddo llenwi" lle maent:

- a) mewn adeilad sy'n union yn gyfagos, megis eiddo rhannol ar wahân; neu
- b) yn yr un teras; neu
- c) sydd yn yr un adeilad, megis fflat, fel aelwyd sy'n bodloni'r meini prawf hynny.

Yn achos (a) bod gan o leiaf un o'r ddau eiddo grŵp aelwyd sy'n bodloni meini prawf Tlodi Tanwydd neu Incwm Isel Agored i Niwed oherwydd Tymheredd Oer; ac yn achos (b) ac (c) bod 66% o'r eiddo grŵp aelwyd yn bodloni meini prawf Tlodi Tanwydd neu Incwm Isel Agored i Niwed oherwydd Tymheredd Oer.

## **4) Llywodraethu a Phroses**

Mae Cyngor Sir Fynwy yn gweithio gydag Asiantaeth Ynni De-ddwyrain Cymru (neu SEWEA) i hyrwyddo cyngor ar effeithlonrwydd ynni a gosod mesurau effeithlonrwydd ynni i gefnogi'r rheini sydd mewn tldi tanwydd. Bydd SEWEA yn rheoli'r broses Cymhwysedd Hyblyg ar ran y cyngor a defnyddir ei llinell gymorth (01633 223111) i asesu cymhwysedd deiliaid tai yn erbyn y meini prawf incwm isel/bod yn agored i niwed a nodir uchod.

Gofynnir i bob deiliad tŷ cymwys gwblhau ffurflen hunan-ardystio ac efallai y gofynnir iddynt ddarparu dogfennau i gefnogi eu cymhwystra. Yna bydd SEWEA yn gofyn am ddatganiad wedi'i lofnodi gan y cyngor sy'n galluogi'r cyflenwr perthnasol i hawlio'r arian ECO sydd ei angen er mwyn gallu gosod y mesur effeithlonrwydd ynni y gofynnwyd amdano.

Bydd Steve Griffiths, Swyddog Strategaeth a Pholisi, Tai Chymunedau'n cymeradwyo Datganiadau ar ran y cyngor a bydd yn archwilio 3% o geisiadau er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r meini prawf cymhwysedd sydd wedi'u cyhoeddi.

## **5) Cais gan Ddeiliaid Tŷ**

Dylai unrhyw ddeiliad tŷ yn Sir Fynwy sy'n credu y gallai fod yn gymwys i gael cymorth o dan Gymhwysedd Hyblyg gysylltu â llinell gymorth SEWEA ar 01633 223111 neu e-bostiwrch [advice@sewenergy.org.uk](mailto:advice@sewenergy.org.uk). Bydd SEWEA yn gwirio'r statws cymhwyster a bydd yn darparu ffurflen gais a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r ymgeisydd hunan-ardystio ei incwm a'i feini prawf cymhwyster eilaidd. Pan gânt eu cymeradwyo, byddant yn cyfeirio'r preswlydd at aseswr neu osodwr i fynd â'r broses ymhellach.

Gall atgyfeiriad gael ei wneud gan drydydd parti a byddai'n cynnwys Gofal ac Atgyweirio, Cyngor ar Bopeth, Undebau Credyd, Darparwyr Gofal ac ati, gyda'r hunan-ardystiad uchod hefyd yn ofynnol.

Fodd bynnag, nid yw bod yn gymwys yn warant y caiff mesurau eu gosod. Caiff penderfyniad terfynol ynghylch a all unrhyw aelwyd unigol elwa o welliannau arbed ynni o dan y llinyn hwn o ECO ei wneud gan y cyflenwyr dan ymrwymiad neu eu hasiantau/contractwyr. Nid yw eu cynnwys mewn Datganiad a gyhoeddir gennym yn gwarantu gosod mesurau.

## 6) Rhwydwaith y Cyflenwyr/Gosodwyr

Yn gyntaf, bydd angen i unrhyw gyflenwr neu osodwr sy'n ceisio Datganiad gan y Cyngor ar ran deiliad tŷ cymwys gofrestru gyda SEWEA. Mae hyn yn sicrhau bod gan y cyngor wybodaeth am safonau, arferion ac achrediaidau gosodwyr sy'n gweithio yn y sir, gan leihau'r risg o dwyll, gosodiadau o ansawdd gwael a chamfanteisio ar drigolion sy'n agored i niwed y mae'r cyngor yn edrych i gynorthwyo. Am ragor o wybodaeth, ffoniwch SEWEA ar 01633 223111 neu e-bostiwch [advice@sewenergy.org.uk](mailto:advice@sewenergy.org.uk).

Bydd yn rhaid i bob cyflenwr, asiant a chontractwyr gydymffurfio â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol a'r Ddeddf Diogelu Data 2018.

## 7) Llofnod

Llofnodwr Datganiad o Fwriad Cymhwysedd Hyblyg



Dyddiad: 28/09/2021

Frances O'Brien, Prif Swyddog, Menter

Cyngor Sir Fynwy